Proffil

# Sgiliau Digidol

Graddedigion

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

**Pa sgiliau digidol ydych chi'n eu defnyddio yn y gwaith?**

**Cyfranogiad digidol** – "Dwi'n cael lot o gyfarfodydd ar-lein, ac rydyn ni'n defnyddio *Google Meet* ar gyfer rhain."

**Hyfedredd digidol** – "Gan fy mod i'n gyfieithydd, dwi'n defnyddio tipyn ar raglenni fel Cysgeir a Cysill, a dwi hefyd yn defnyddio geiriaduron ar-lein fel Byd Termau Cymru a Geiriadur yr Academi.”

**Cyfathrebu digidol** – "Dwi'n defnyddio *Gmail* pob dydd ar gyfer e-bostio cydweithwyr."

**Cynhyrchiant digidol** – "Dwi'n defnyddio labeli yn *Gmail* ar gyfer helpu fi i drefnu fy e-byst."

**A gawsoch chi unrhyw gefnogaeth gyda'ch sgiliau digidol ym Mhrifysgol Aberystwyth?**

"Ges i dipyn o gefnogaeth gan fy narlithwyr a gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddysgu sut i ddefnyddio Cysill a Cysgeir."

"Ges i gefnogaeth gan ddarlithwyr ar sut i ddefnyddio'r rhestrau darllen ar Blackboard. Roedd hynna'n help mawr ar gyfer dod o hyd i adnoddau ar gyfer ysgrifennu traethodau."

**Oes unrhyw sgiliau digidol yr hoffech fod wedi'u dysgu cyn ichi raddio?**

"Pan nes i adael y Brifysgol, doeddwn i ddim yn hyderus iawn yn cyfathrebu dros e-bost mewn modd proffesiynol, felly byddai wedi bod yn dda gallu ymarfer hyn mwy cyn gadael."

"Rydyn ni'n defnyddio *Excel* lot yn y gwaith nawr i reoli data. Nes i ddim defnyddio *Excel* o gwbl fel rhan o fy ngradd i, ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol iawn gallu dysgu sut i'w ddefnyddio tro oeddwn i yn fyfyriwr."

**Pryd wnaethoch chi raddio o Brifysgol Aberystwyth?**

"2002"

**Beth fuoch chi’n ei astudio?**

"Hanes a Gwleidyddiaeth"

**Beth ydych chi'n ei wneud yn broffesiynol ers graddio?**

"Dwi nawr yn gweithio i gwmni Hyfforddiant Cambrian fel cyfieithydd"



# Manon Rosser